Help gyda biliau ynni: profiadau yng Nghymru

SEFYDLIAD bevan FOUNDATION

Awst 2024

Gwybodaeth am Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan ydy melin drafod fwyaf dylanwadol Cymru. Rydyn ni'n creu mewnwelediadau, syniadau ac achosi effeithiau sy'n helpu i roi diwedd ar dlodi ac anghydraddoldeb. Rydyn ni'n annibynnol, yn gyfoeth o wybodaeth, yn ysbrydoli ac yn gynhwysol ym mhopeth a wnawn.

Fel elusen gofrestredig annibynnol, mae Sefydliad Bevan yn dibynnu ar haelioni unigolion a sefydliadau i allu cyflawni ei waith.

Diolchiadau

Mae Sefydliad Bevan yn hynod ddiolchgar i Ymddiriedolaeth Trussell am gyfrannu cyllid tuag at gost yr adroddiad hwn.

Hoffai Sefydliad Bevan hefyd ddiolch i 'National Energy Action' am ganiatáu i ni gynnal gweithdai yn eu Fforymau Tlodi Tanwydd Cymru yn ystod mis Ebrill 2024.

Sut gallwch chi helpu

Mae cannoedd o bobl a sefydliadau ledled Cymru yn galluogi Sefydliad Bevan i godi llais yn erbyn tlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder. Ni fyddem ni'n bodoli heb eu cefnogaeth.

Er mwyn gwneud Cymru yn genedl o ffyniant i bawb, lle gall pawb gyflawni eu potensial, waeth pwy ydyn nhw neu ble maen nhw'n byw, ymunwch â'n cymuned o gefnogwyr.

Gall eich cefnogaeth chi ac eraill wneud gwahaniaeth i ni a gwahaniaeth i Gymru.

Cewch ragor o wybodaeth ar https://www.bevanfoundation.org/support-us/individuals/ neu gallwch e-bostio at: info@bevanfoundation.org i ganfod yr hyn gallwch chi ei wneud

Llun clawr: Delwedd stoc gan 'iStock'

Hawlfraint Sefydliad Bevan
Sefydliad Bevan, 145a Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8DP
info@bevanfoundation.org www.bevanfoundation.org

Elusen gofrestredig rhif: 1104191 Cwmni a gofrestrwyd yng Nghymru rhif: 4175018

Crynodeb

Wrth i gost nwy a thrydan gynyddu, mae nifer y teuluoedd sy'n cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd wedi cynyddu'n aruthrol. Er bod prisiau wedi sefydlogi rhywfaint dros y misoedd diwethaf, maen nhw'n parhau i fod yn sylweddol uwch nag yr oedden nhw yn 2021, a does yna ddim unrhyw arwydd y bydd biliau'n gostwng yn ôl i'r lefelau hynny'n yn y tymor byr.

Er mwyn gwrthsefyll yr ymchwydd mewn tlodi a chaledi sydd wedi deillio o gostau ynni cynyddol, rhoddwyd ystod o fesurau cymorth ar waith i gefnogi pobl sy'n cael trafferth gyda'u costau byw. Un set o fesurau o'r fath fu cynlluniau cymorth a ddarperir gan gyflenwyr ynni. Er bod cynlluniau o'r fath yn rhagflaenu'r argyfwng costau byw, mae'r ymchwydd diweddar mewn prisiau ynni wedi arddangos bod pwysigrwydd y cynlluniau wedi cynyddu'n sylweddol. Ond er hyn i gyd, cymharol ychydig o ymchwil a wnaed ar gryfderau a gwendidau cynlluniau'r cyflenwyr. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r cynlluniau ac yn nodi meysydd lle y gellid eu cryfhau i gefnogi pobl yn well ar adegau o galedi neu argyfwng ariannol.

Ymhlith canfyddiadau allweddol yr adroddiad, er bod cynlluniau cymorth cyflenwyr ynni yn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a chadarnhaol i fywydau pobl sy'n cael trafferth talu eu biliau ynni, mae yna ddiffygion sylweddol yn y ffordd y mae'r cynlluniau'n gweithredu ar hyn o bryd. Ymhlith y gwendidau mae'r canlynol:

1. Dydy pobl ddim yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan gyflenwyr. Dydy llawer o gyflenwyr ddim yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am eu cynlluniau nac yn cymryd camau digonol i roi cyhoeddusrwydd i'w hargaeledd.

2. Yn aml gall fod yn anodd i bobl gael gafael ar y cymorth sydd ar gael. Mae yna ddyddiadau cau ceisiadau sy'n gyfnewidiol, meini prawf cymhwysedd sy'n aneglur ac anawsterau wrth ymgysylltu â chyflenwyr, a'r rhain i gyd yn rhwystrau sy'n atal pobl rhag gallu cael cymorth.

3. Dydy gwerth a graddfa'r cymorth sydd ar gael bob amser ddim yn ddigon i wneud gwir wahaniaeth. Mae adroddiadau bod cynlluniau cymorth yn cael eu cau'n gynnar ar gyfer ceisiadau yn arwydd nad ydy'r arian a fuddsoddir ynddyn nhw'n ddigonol i ateb y galw. Hyd yn oed lle mae pobl yn llwyddo i gael cymorth, gall effaith cynlluniau fel ad-daliadau dyledion rhannol weithiau fod yn gymysglyd.

Mae'r diffygion hyn yn cael gwir effaith ar gymunedau yng Nghymru. Gallan nhw adael pobl mewn trafferthion ariannol, gan orfodi pobl i ddewis rhwng twymo'r tŷ a phrynu bwyd. Maen nhw hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau, megis y gwasanaethau cynghori, ac yn arwain at achosi i bobl ddibynnu ar ffynonellau cymorth eraill, megis cronfeydd elusen.

Mae yna gamau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae casgliadau'r adroddiad yn nodi ystod o fesurau tymor byr a rhai hirdymor y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodir ynddo.

Yn gryno, dyma gredwn ni:

1. Dylai Llywodraeth y DU ac Ofgem gydweithio i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni gymryd camau i hyrwyddo'n well y cynlluniau cymorth y maen nhw'n eu cynnig ar hyn o bryd.

2. Dylai Llywodraeth y DU ac Ofgem gydweithio i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni gymryd camau i wella eu prosesau gwneud cais.

3. Dylai Llywodraeth y DU ac Ofgem gydweithio i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni gymryd camau i sicrhau mwy o dryloywder yn achos pob cynllun cymorth.

4. Dylai cyflenwyr ynni weithio gyda'r sector cynghori i ddeall eu hanghenion yn well, er mwyn sicrhau mwy o gydweithredu.

Hyd yn oed pe bai'r camau hyn yn digwydd, mae'n afrealistig disgwyl i gynlluniau'r cyflenwyr ynni ddatrys materion sy'n ymwneud â thlodi tanwydd ar eu pen eu hunain. Felly rhaid gweithredu'r mesurau hyn ochr yn ochr â chamau gweithredu tymor hwy. Ymhlith y camau gweithredu y dylid eu cymryd mae'r canlynol:

1. Dylai Llywodraeth y DU roi Gwarant Hanfodion ar waith fel bod gwerth y Credyd Cynhwysol yn ddigonol i roi lefel incwm i bawb sy'n talu am gostau hanfodion, gan gynnwys ynni.

2. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu buddsoddiad yn ei Rhaglen Cartrefi Clyd fel y gall weithredu ar raddfa ehangach i wella effeithlonrwydd ynni yn y cartref a lleihau tlodi tanwydd. Er bod yr iteriad newydd o'r rhaglen yn cynnwys llawer o fesurau sydd i'w croesawu, bydd yn cymryd rhwng 120 a 380 mlynedd i'r rhaglen gyflawni ei hamcanion, yn seiliedig ar amcangyfrifon cyfredol.

3. Dylai Llywodraeth y DU, Ofgem, a chyflenwyr ynni gydweithio i gynyddu fforddiadwyedd yn y farchnad ynni i'r rhai sydd ar yr incwm isaf. Ymhlith y mesurau y dylid eu hystyried mae cyflwyno tariff cymdeithasol fel y gall pobl ar yr incwm isaf gael mynediad at nwy a thrydan ar gyfraddau mwy fforddiadwy.